**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 5

# *Sosialaeth: Nodweddion Allweddol*

## Canllaw i Athrawon

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Sosialaeth: Nodweddion Allweddol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.3.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Sosialaeth'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i rai o'r elfennau Sosialaidd allweddol a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb, er enghraifft cymuned, cydweithrediad, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, dosbarth a pherchnogaeth gyffredin.

Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 6, Sosialaeth: Ffrydiau Amrywiol, sy'n cyflwyno rhai o'r ffrydiau Sosialaidd pwysig sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.3.1 o'r fanyleb, er enghraifft Marcsiaeth a Democratiaeth Gymdeithasol.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

I ddechrau, mae'r llawlyfr gwybodaeth yn cynnig gorolwg byr o'r drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau Sosialaeth, gan egluro mai'r consensws cyffredinol ymhlith ysgolheigion yw mai ideoleg a ddatblygodd yn ystod degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw, yn bennaf fel adwaith i'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd a sgubodd ar draws Ewrop yn sgil datblygiad y gymdeithas ddiwydiannol fodern.

Yna, cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i bump o elfennau sydd wedi dod i hawlio lle canolog yn y byd-olwg Sosialaidd, sef cymuned, cydweithrediad, cydraddoldeb cymdeithasol, dosbarth a pherchnogaeth gyffredin. Trafodir pob elfen yn ei thro, ac ym mhob achos fe gynigir eglurhad o natur unrhyw egwyddorion neu gysyniadau perthnasol.

Tra bo'r gwahanol elfennau a gyflwynir yn yr adnodd hwn yn rhai sydd wedi dod i gael eu trin fel rhai sydd wedi tueddu i nodweddu'r byd-olwg Sosialaidd – gan ganiatáu i ni wahaniaethu rhwng Sosialaeth ag ideolegau gwleidyddol eraill megis Rhyddfrydiaeth neu Geidwadaeth – dylid gochel rhag awgrymu y ceir un ffurf swyddogol ar sosialaeth. Yn hytrach, dros y blynyddoedd datblygodd ystod o ffrydiau sosialaidd gwahanol. Fe ddaw hyn yn fwy amlwg i'r disgyblion wrth ystyried cynnwys Adnodd 6 ochr yn ochr â chynnwys Adnodd 5.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae'r llawlyfr gwaith yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n canolbwyntio yn eu tro ar bob un o'r elfennau allweddol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth – cymuned, cydweithrediad, cydraddoldeb ayyb. Gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu cyfres o baragraffau sy'n cynnig atebion i'r cwestiynau yma. Nod hyn yw cynnig cyfle iddynt lunio amryw o ddarnau byr sy'n crynhoi mewn modd digon syml pam mae Sosialwyr wedi tueddu i roi pwyslais mawr ar elfennau o'r fath. Fel opsiwn arall, fe ellid defnyddio'r cwestiynau yn y llawlyfr gwaith fel sail ar gyfer cyfres o drafodaethau grŵp.

## DARLLEN PELLACH

Barbara Goodwin, *Using Political Ideas* (Chichister, John Wiley & Sons Ltd, 2014), pennod ar Farcsiaeth, tud 73-106 a phennod ar Sosialaeth 107-32.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Sosialaeth, tud 83-110.

Howard Williams, *Y Meddwl Modern: Marx* (Gwasg Gee/Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), e-argraffiad ar gael o lyfrgell adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1758~4v~69mREL7f

W. J. Rees, *Y Meddwl Modern: Lenin* (Gwasg Gee/Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), e-argraffiad ar gael o lyfrgell adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1412~4i~hewGA5j8